



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr**

**Cymwysterau Cymru**

**Penodi Aelod**

**Y dyddiad cau: 16 Hydref 2020**



Rheoleiddiwyd gan y  
Comisiynydd Penodiadau  
Cyhoeddus

## Cymwysterau Cymru

**Cynnwys**

Tudalen

**Gwneud Cais**

**2-4**

**Atodiad A: Rôl y Cadeirydd / Aelod**

**5-6**

**Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Cymwysterau Cymru**

**7**

**Atodiad C: Y broses ddethol**

**8-9**

## Gwneud cais

Diolch ichi am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn aelod o Fwrdd Cymwysterau Cymru (mae pum swydd wag ar y Bwrdd). Bydd pob aelod newydd yn chwarae rhan flaenllaw drwy ddarparu her adeiladol a dod â syniadau newydd ar draws busnes Cymwysterau Cymru i sicrhau bod pob agwedd ar ei strategaeth, ei gyfeiriad a'i ddarpariaeth yn cael ei harchwilio er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd fel bod y sefydliad yn parhau i wneud gwahaniaeth i addysg yng Nghymru. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Cymwysterau Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-10ffc816131a/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd Bwrdd Cymwysterau Cymru ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

## Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae'ch gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio'ch cyfraniad at gyflawni canlyniad penodol. **Byddai hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.**

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn hirach na dwy dudalen. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os ydych yn mynd dros y terfyn hwn.

## CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol blaenorol neu bresennol.

## Amserlen fras

Dyddiad cau:	16 Hydref 2020
Rhestr fer:	w/d 2 Tachwedd 2020
Cyfweliadau:	w/d 23 Tachwedd 2020

## Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

## Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu mewn modd sy'n analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl. Os hoffech gael cyfweliad gwarantedig, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru) i roi gwybod i ni.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen ichi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, anfonwch e-bost i [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru) cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

## Cymwysterau Cymru

### Enwau Cyswilt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus

Uned Cyrff Cyhoeddus

E-bost: [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru)

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Cymwysterau Cymru a rôl Aelod, cysylltwch â:

Judith Askew yng Nghangen Nawdd Cymwysterau Cymru:

Rhif ffôn: 03000 628627

E-bost: [Judith.Askew@llyw.cymru](mailto:Judith.Askew@llyw.cymru)

neu â:

Kay Powell, Pennaeth Llywodraethiant Corfforaethol Cymwysterau Cymru:

Rhif ffôn: 01633 373344

E-bost: [Kay.Powell@cymwysteraucymru.org](mailto:Kay.Powell@cymwysteraucymru.org)

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch â: [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru).

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i <https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus>

## Penodi Aelod - Cymwysterau Cymru

### Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

#### Rôl a chyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd

- Darparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth, ysgogi perfformiad a dwyn y Corff i gyfrif yn erbyn ei gynlluniau strategol a chorfforaethol
- Sicrhau priodoldeb, rheoleidd-dra, darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth weithredu'r corff
- Rhoi sylw i saith egwyddor bywyd cyhoeddus (egwyddorion Nolan)
- Ynghyd ag aelodau eraill o'r Bwrdd, sicrhau bod y Corff yn cyflawni ei nodau a'i amcanion statudol
- Bod yn eiriolwr dros y sefydliad a'i nodau a'i amcanion. Bod yn fodel rôl i staff a rhanddeiliaid
- Cydweithio i feithrin perthynas â'r holl rhanddeiliaid gan gynnwys Adrannau allweddol Llywodraeth Cymru, yn enwedig yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
- Deall egwyddorion bywyd cyhoeddus ac ymrwymo iddynt
- Deall yn glir gydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymrwymo iddynt, a bod yn barod i herio arferion gwahaniaethol.

#### Manyleb Person

##### Tasgau Allweddol

Bydd yr Aelodau'n cynorthwyo'r Cadeirydd i gyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd i: -

- bennu cyfeiriad a pholisïau strategol y Corff
- sicrhau bod y Corff yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol
- sicrhau bod y Corff yn cael ei reoli'n briodol ac yn effeithiol, er mwyn diogelu priodoldeb, darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ei weithredu; a
- darparu stiwardiaeth ar gyfer yr arian cyhoeddus a roddir i'r sefydliad.

Bydd yr Aelodau hefyd yn cynorthwyo'r Cadeirydd yn ei rôl gynrychioliadol. Bydd disgwyl i'r Aelodau:

- greu Bwrdd effeithiol, drwy annog aelodau'r Bwrdd i fynd ati i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau ar y cyd, a chadeirio, neu gymryd rhan yn ôl y gofyn mewn un neu ragor o bwyllgorau'r Bwrdd
- sicrhau cyfrifoldeb ar y cyd am benderfyniadau'r Bwrdd
- hyrwyddo cysylltiadau effeithiol a chyfathrebu agored, rhwng aelodau'r Bwrdd, y tîm gweithredol a staff o fewn y corff; ac

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid i chi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad.

#### Meini Prawf Hanfodol

##### Ar gyfer holl aelodau Bwrdd Cymwysterau Cymru:

- y gallu i ddod â syniadau newydd i drafodaethau ar faterion strategol ac ymarferol y tu allan i'ch meysydd arbenigedd
- y gallu i oruchwylio, cyfarwyddo a/neu wneud penderfyniadau yn wyneb ansicrwydd gwleidyddol neu ariannol
- y gallu a'r profiad i graffu ar ein gwaith er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i gymwysterau yn ymarferol, yn gywir ac wedi'u cynllunio i gyflawni'r weledigaeth a fwriedir
- dealltwriaeth eang o faterion addysg yng Nghymru. Gallai'r wybodaeth hon fod wedi'i hennill mewn unrhyw faes, gan gynnwys gwaith cymunedol, gwaith gwirfoddol neu gefndir proffesiynol.
- gwerthfawrogiad o waith Cymwysterau Cymru a'i waith gyda rhanddeiliaid.

## Cymwysterau Cymru

Ar gyfer y rolau penodol hyn:

Arbenigedd yn y meysydd canlynol – o unrhyw sector diwydiant:

- Rheoleiddio - arbenigedd mewn rheoleiddio yn hytrach na chael eich rheoleiddio (o leiaf un swydd)
- Asesu – arbenigedd yn theori a chymhwyso asesu a sicrhau ansawdd (o leiaf ddwy swydd)
- Rheoli busnes – arbenigedd yn y sector preifat (o leiaf un swydd)

### Meini prawf dymunol

Dealltwriaeth o'r Sector Addysg - mae gan Cymwysterau Cymru Fwrdd sy'n seiliedig ar sgiliau, felly ni ddyrennir rolau i unigolion o gefndiroedd penodol. Fodd bynnag, byddai gwybodaeth drylwyr am un o'r sectorau addysg canlynol yn ddymunol ar gyfer rhai o'r rolau sydd ar gael: ysgolion a cholegau, y sector prifysgolion, dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau.

### Meini prawf dymunol

#### Yr Iaith Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a chynyddu sgiliau dwyieithog ym mhenodiadau cyhoeddus Cymru, ac mae'n croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n dangos eu bod yn gallu gweithio drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhestr ganlynol o ofynion iaith yn cynrychioli asesiad gwrthrychol gan y corff recriwtio o'r sgiliau Gymraeg sy'n ofynnol i gyflawni dyletswyddau'r swydd arbennig hon.

Yr Iaith Gymraeg - Nid yw'r gallu i siarad **Cymraeg yn hanfodol** ond mae'n ddymunol iawn ar gyfer y pedair swydd hon, fel a ganlyn:

Deall - Yn gallu deall rhannau o sgwrs sylfaenol

Siarad - Yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg

Ysgrifennu - Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd

Darllen - Yn gallu darllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol yn ddeallus

### Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Cymwysterau Cymru, Adeilad Q2, Lôn Pencarn, Parc Imperial, Coedcernyw, Casnewydd, NP10 8AR
	Cynhelir cyfarfodydd yn y swyddfa fel arfer ond mae'r defnydd o dechnoleg rithwir ar gael
Ymrwymiad Amser:	36 diwrnod y flwyddyn (uchafswm) – ni ddisgwylir iddo fod yn fwy na chyfartaledd o 3 diwrnod y mis.
Hyd y penodiad:	3 blynedd
Tâl:	£282 y diwrnod yn seiliedig ar ymrwymiad amser ar y mwyaf o 36 diwrnod y flwyddyn ynghyd â threuliau teithio a threuliau rhesymol eraill o fewn terfynau rhesymol.

### Cymhwysedd

Dylai ymgeiswyr nodi bod Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn anghymhwyso unrhyw un rhag bod yn aelod o'r bwrdd sy'n:

- (a) aelod o gorff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru neu aelod o'i staff
- (b) Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- (c) Aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn aelod o Fwrdd Cymwysterau Cymru yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made>

### Gwrthdaro Buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfri foldebau fel Aelod o Cymwysterau Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn Cymwysterau Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael eu trafod yn y cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd yn ofynnol i chi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

## Cymwysterau Cymru

### Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sydd wedi'i sifftio'n llwyddiannus i gyfweiliad. Bydd hyn yn cynnwys, ymysg eraill, chwiliadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, efallai y gofynnir cwestiynau i chi yn y cyfweiliad mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

### Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi arddangos ymddygiad corfforaethol a phersonol o safon uchel. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw Cod Ymarfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Cewch weld y ddogfen hon [yma](#).

## Rôl a chyfrifoldebau Cymwysterau Cymru

### Cefndir

#### Trosolwg

O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, daeth Cymwysterau Cymru yn gyfrifol am reoleiddio cyrff dyfarnu a sicrhau ansawdd cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau gradd a ddarperir yng Nghymru. Mae Cymwysterau Cymru, fel corff statudol annibynnol, mewn sefyllfa dda i sicrhau bod cymwysterau a gynigir yng Nghymru yn diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi.

Cymwysterau Cymru yw'r prif awdurdod ar gymwysterau yng Nghymru ac mae'n rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion Cymru ar faterion perthnasol yn ogystal â gwybodaeth, cyngor a chymorth i ystod eang o randdeiliaid. Mae'n cyfleu gwerth y cymwysterau a gynigir yng Nghymru i randdeiliaid y tu mewn a'r tu allan i Gymru.

Mae Cymwysterau Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Mae'n gwneud penderfyniadau proffesiynol ac annibynnol ar gymwysterau. Mae'n arwain ar agweddau ar ddatblygu polisi cymwysterau. Mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar sut y mae wedi cyflawni a sut y mae'n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau.

#### Llywodraethiant

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r corff ac felly mae'n atebol am llywodraethiant arian cyhoeddus. Fodd bynnag, Cymwysterau Cymru yw'r rheoleiddiwr annibynnol sy'n atebol am gyflawni ei swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae gan Fwrdd Cymwysterau Cymru Gadeirydd annibynnol a rhwng 8 a 10 aelod anweithredol.

Bydd y broses o benodi aelodau anweithredol yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus.

#### Rôl y Bwrdd

Rôl y Bwrdd yw llywodraethu'n gryf ac arwain yn effeithiol, datblygu'r cynllun strategol ar gyfer Cymwysterau Cymru a phennu amcanion heriol. Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus ac yn cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Mae'n sicrhau bod gweithgareddau Cymwysterau Cymru yn cael eu cyflawni yn effeithlon ac yn effeithiol, ac mae'n monitro perfformiad i sicrhau bod y corff yn cyflawni'n llawn ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad.

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu trefniadau llywodraethiant trosfwaol ac mae'n dirprwyo ei swyddogaethau i swyddogion drwy gynllun dirprwyo sy'n cwmpasu materion ariannol ac anariannol.



## Y Broses Ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu'n llwyr ar y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn eich CV a'ch datganiad i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

David Jones (Cadeirydd Bwrdd Cymwysterau Cymru), Mark Langshaw, Prif Swyddog Gweithredol, Continental Teves fel Aelod Annibynnol o'r Panel, Georgina Haarhoff, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cwricwlwm fydd yn cadeirio'r panel dethol.

Gall eich cais gyrraedd "rhestr hir", yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, cyn iddo gael ei drosglwyddo i'r panel llunio rhestr fer ei ystyried. Dylech fod yn ymwybodol na fydd pob aelod o'r panel yn ystyried eich cais yn llawn yn y sefyllfa hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu ddechrau mis Tachwedd 2020 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad ddiwedd Tachwedd. Ein bwriad yw cynnal cyfweiliadau rhithiol oherwydd Covid 19.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'n teimlo eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni orau y meini prawf a nodir yn y manyleb person y bydd y Panel yn eu dewis ar gyfer cyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad **a'ch bod yn bodloni meini prawf gofynnol y swydd**, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac os nad yw dyddiad y cyfweiliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl i chi o ddyddiad y cyfweiliad. Os nad yw'r dyddiad a drefnir yn gyfleus i chi, byddwn yn ceisio ei aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu oherwydd nad yw'r panel dethol ar gael.

Byddwch yn cael neges e-bost o system Penodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd y panel yn gofyn ichi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn cwrdd â'r **meini prawf hanfodol sylfaenol** a nodir ar gyfer y swydd.

Caiff ymgeiswyr y mae'r panel yn credu eu bod yn 'rhaf y gellir eu penodi' eu hargymell i Weinidogion a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod ag ymgeiswyr y gellir eu penodi cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad terfynol am y penodiad. Bydd yr ymgeiswyr sydd wedi cael eu cyfweld yn cael gwybod y diweddaraf ar hyd y broses.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n aelod o Fwrdd Cymwysterau Cymru, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth am eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

### Ymholiadau

Os oes gennych ymholiadau am eich cais, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru).

### Os nad ydych yn gwbl fodlon

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru).